# Pecyn Recriwtio

## Deon Cadeirlan Deiniol Sant ym Mangor
## Arweinydd Ardal Weinidogaeth Bro Deiniol



Esgobaeth Bangor
The Diocese of Bangor

Cadeirlan Deiniol Sant ym Mangor
Saint Deiniol's Cathedral in Bangor





# Cynnwys

5
Cyflwyniad

7
Yr Ardal Weinidogaeth
Y Gadeirlan
Eglwys Pedr Sant, Penrhosgarnedd
Eglwys y Groes, Maesgeirchen

10
Y Ddinas

11
Y Tîm
Llywodraethu a Strategaeth
Ysgolion yn yr Ardal Weinidogaeth

13
Addoliad a Cherddoriaeth
The Deanery
Grwpiau a Sefydliadau Eraill yn yr Ardal Weinidogaeth

14
Deon y Gadeirlan ac Arweinydd Ardal Weinidogaeth Bro Deiniol





# Cyflwyniad

**Saif Eglwys Gadeiriol Deiniol Sant ym Mangor ymhlith y safleoedd hynaf o addoli Cristnogol parhaus yn y Deyrnas Unedig. Heddiw, mae'n parhau'n ganolfan fywiog o addoliad a thystiolaeth, wedi'i gwreiddio yng nghalon y ddinas y mae wedi helpu i'w llunio ers pymtheg canrif.**

Sefydlwyd y clàs gwreiddiol (cymuned grefyddol) gan Sant Deiniol yn y flwyddyn 525, ac fe'i hamgylchynwyd gan ffens cyll—'bangor' yn Gymraeg—sy'n rhoi ei henw i'r ddinas. Eleni, wrth i ni nodi 1,500 o flynyddoedd ers i Deiniol ymsefydlu yma, rydym yn dathlu etifeddiaeth gyfoethog o ffydd sy'n parhau i'n hysbrydoli ac i'n herio.

Fel sedd Esgob Bangor a mam eglwys yr esgobaeth, mae'r Gadeirlan hefyd yn meddu ar y fraint unigryw o fod yn sedd bresennol Archesgob Cymru, gan ei gwneud yn Eglwys Gadeiriol Fetropolitan talaith Cymru. O ganlyniad, mae'r Gadeirlan yn cynnal digwyddiadau esgobaethol a thalaethol ym mywyd Eglwys Cymru, megis cysegriad esgobion newydd.

Fel un o'r cadeirlannau lleiaf yng Nghymru, wedi'i lleoli mewn dinas Gymreig lai adnabyddus, nid yw'n denu'r un lefelau o dwristiaeth sy'n cynnal cyd-destunau cadeirlannau eraill. Bydd y Ddeon felly yn chwarae rhan hanfodol wrth ddychmygu ac arwain datblygiad model ariannol cynaliadwy ar gyfer y blynyddoedd i ddod—yn chwilio am bartneriaethau creadigol ac yn archwilio ffrydiau newydd ar gyfer creu incwm, nid yn unig ar gyfer y Gadeirlan ond ar draws Ardal Weinidogaeth ehangach Bro Deiniol.

Bydd y Ddeon newydd yn meddu ar weledigaeth feiddgar a gobeithiol ar gyfer y Gadeirlan fel canolfan rhagoriaeth mewn addoliad, cenhadaeth a gweinidogaeth, ac ar gyfer Bro Deiniol fel grŵp amrywiol o gymunedau addoli sy'n gweinidogaethu'r ddinas mewn cyd-destunau a dulliau amrywiol. Gyda'n hunaniaeth a'n darpariaeth cwbl ddwyieithog , mae rhuglder yn y Gymraeg yn hanfodol.

Mae'r Ardal Weinidogaeth hefyd yn rhan o Lwybr Pererinion Gogledd Cymru—o Abaty Basingwerk i Ynys Enlli—ac mae potensial cyffrous i ddyfnhau ein gweinidogaeth i bererinion ac ymchwilwyr sy'n teithio drwy'r dirwedd sanctaidd hon.

Mae'r Gadeirlan yn cychwyn pennod newydd yn ei bywyd—un a nodir gan fyfyrio, adnewyddu a gwir addewid. Yn dilyn heriau diweddar ynghylch llywodraethu a diogelu, cynhaliwyd ymweliad esgobol gan yr elusen ddiogelu Thirtyone:Eight a dau archddeacon wedi ymddeol o fewn Eglwys Cymru. Mae argymhellion eu hadroddiadau bellach yn gyhoeddus ac wedi'u cynnwys yn y pecyn hwn. Mae grŵp gweithredu a grŵp goruchwylio eisoes ar waith yn sicrhau bod yr argymhellion yn cael eu rhoi ar waith, ac rydym yn cael ein calonogi'n fawr gan y cynnydd sylweddol sydd eisoes wedi'i wneud dan arweiniad dros dro Archddiacon Bangor a Chabidwl y Gadeirlan. Bydd y Deon newydd yn parhau â'r gwaith hwn, gan wreiddio diwylliant o dryloywder, gofal ac atebolrwydd ar bob lefel.

Bydd y Deon newydd yn ymuno ag esgobaeth sy'n ceisio rhoi ar waith ein hegwyddorion o 'Addoli Duw, tyfu'r Eglwys, a charu'r Byd' ym mhopeth a wnawn. Lle rydym yn ymwybodol yn fwriadol o'n blaenoriaethau i dyfu gweinidogaethau newydd, meithrin disgyblion a chroesawu plant, pobl ifanc a theuluoedd yn ein heglwysi. Bydd y Deon yn aelod allweddol o dîm arweinyddiaeth yr esgobaeth—yn gwasanaethu ar Gyngor y Weinidogaeth (sy'n rhoi goruchwyliaeth weithredol) a Chyngor yr Esgobion (sy'n llunio ein cyfeiriad strategol). Gwyddom y byddai'r tîm yn cael ei gryfhau gan fwy o amrywiaeth, ac rydym yn croesawu ceisiadau'n arbennig gan bobl o gefndiroedd amrywiol ac ymgeiswyr benywaidd.

*Os yw dy galon wedi ei chyffroi gan yr Ysbryd a chyffyrddiad Duw i arwain yn y lle hwn—byddem wrth ein bodd yn clywed gennyt. Mae'r rôl hon yn un o arwyddocâd sylweddol, wedi'i llenwi â'r posibilrwydd i saernio dyfodol Bro Deiniol.*

**+Andrew Cambrensis**
*Archesgob Cymru ac Esgob Bangor*

**+David Enlli**
*Esgob Enlli ac Esgob Cynorthwyol ym Mangor*















# Yr Ardal Weinidogaeth

## Y Gadeirlan

**Nid tirnod hanesyddol yn unig yw Cadeirlan Deiniol Sant—mae'n leoliad byw o weddi yng nghalon y ddinas. Gyda hanes sy'n ymestyn dros ganrifoedd o ddinistr ac adnewyddiad, mae'n parhau i gyhoeddi presenoldeb Duw ym mhob cenhedlaeth. Gwnaethpwyd dau gyfnod helaeth o ailadeiladu ar y safle presennol yn ystod yr 16eg a'r 19eg ganrif, gan gynnwys y tŵr ar ochr gorllewinol yr adeilad, a neilltuwyd i'r Esgob Skevington yn 1532, er iddo gael ei gwblhau ar ôl ei farwolaeth yn 1533. Daw trefniant presennol tu mewn yr adeilad o adnewyddiad Syr George Gilbert Scott rhwng 1870 a 1880, a oedd yn cynnwys gwaith helaeth i'r gangell a'r tŵr canolog, gosod ffrâm bren brydferth ac addurniadau pren yn seddau'r côr sy'n darlunio angylion, creaduriaid chwedlonol a dynion gwyrdd.**

Ar lawr yr eil ddeheuol ceir carreg goffa i ddau o dywysogion Gwynedd: Gruff ap Cynan (bu farw 1137) a'i fab Owain, Tywysog Gwynedd (bu farw 1170). Mae'r bedd bwaog yng Nghapel Mair wedi'i adnabod yn amodol fel un Owain.

Ymhlith nodweddion a gwrthrychau nodedig eraill sydd yn y Gadeirlan mae'r teils ar lawr y gangell a Chapel Mair yn gopïau o deils o'r 14eg ganrif a ddarganfuwyd yn ystod adferiad Gilbert Scott. Gellir gweld rhai o'r teils gwreiddiol ar lawr y siop. Mae Carreg Eva, carreg fedd o'r 14eg ganrif a ddarganfuwyd yn ystod yr adferiad, iw gweld yn siop y Gadeirlan. Mae'r cerflun yn dangos dynes, ond nid yw ei hunaniaeth yn hysbys.

Mae dau ddarlun peintiedig modern nodedig gan yr artist o Fôn, John Gregory, yn cael eu harddangos yn yr eil ddeheuol. Ailweithrediadau ydynt o beintiadau gan Caravaggio. Gellir gweld *Crist Mostyn*, sy'n ddelwedd o'r Crist Myfyriol, ym mhen gorllewinol corff yr eglwys a dyddia o ddiwedd y 15fed neu ddechrau'r 16eg ganrif. Mae'n cynrychioli'r eiliadau olaf cyn y croeshoelio; mae enghreifftiau o'r math hwn yn hynod brin yng Nghymru. Mae'r ffigur, bron o lawn faint, yn gwisgo coron ddrain ac yn mynegi dioddefaint dwys a blinder eithafol.

Yn ogystal â chorff yr eglwys, y côr a'r presbyteri, mae gan y Gadeirlan Gapel Mair, ardal siop, toiledau ac ardal cegin, festri, ac ystafell côr



gyda festri. Mae gofod ar gyfer storio yn gyfyngedig iawn, ac fe ddefnyddir corff yr eglwys, Capel Mair a'r festrïau yn gyffredinol ar gyfer cyfarfodydd a digwyddiadau cymdeithasol.

Ers Covid-19, mae'r Gadeirlan wedi profi twf sylweddol o ran niferoedd, ac mae gwaith allweddol i'w wneud i feithrin aelodau newydd fel disgyblion. Mae gan y Gadeirlan gynulleidfa sefydlog sydd wedi bod yn ffyddlon dros sawl blwyddyn, gyda nifer cynyddol o addolwyr newydd ynghyd ag addolwyr cyson o gefndiroedd amrywiol.

Mae darparu gweinidogaeth gyda phlant a theuluoedd yn flaenoriaeth allweddol ac mae cyflogi Gweinidog Plant a Theuluoedd rhan-amser yn helpu i arwain rhaglen gynyddol o addoliad a gweithgaredd - o weithgareddau bore Sul i 'Godly Play' a Llan Llanast ar gyfer gwyliau a digwyddiadau eraill.

Mae corff y Gadeirlan yn ofod hyblyg iawn lle rydym yn cynnal cyngherddau a pherfformiadau cerddorol, Camau Bach(grŵp babanod a phlant bach), cinio 'dod â rhannu', ffeiriau haf a gofodau cynnes i'r rhai unig neu digartref yn y gymuned; yn y gorffennol rydym wedi bod yn ganolfan frechu, lleoliad sioeau ffasiwn a gŵyl gwrw.

Bydd angen gwaith cyfalaf helaeth ar y Gadeirlan yn y tymor agos a'r tymor hwy. Mae'r system wresogi bresennol i'w newid, ac mae'r Cabidwl eisoes wedi dechrau archwilio opsiynau posibl ar gyfer system wresogi newydd i wasanaethu'r Gadeirlan yn y dyfodol. Mae arian eisoes wedi'i glustnodi ar gyfer y gwaith hwn.







## Eglwys Pedr Sant, Penrhosgarnedd

**Nid yw Eglwys Pedr Sant wedi ailagor ers iddi gau yn ystod y pandemig yn 2020, ond mae gwir botensial, gydag ychydig o ddatblygiad i'r adeilad, i'w hailagor neu ei hail-bwrpasu mewn rhyw ffurf.**

Mae'r ardal yn gartref i lawer o weithwyr iechyd, gan ei bod yn agos at Ysbyty Gwynedd ym Mangor. Gall hyn wneud yr ardal yn heriol gan fod y boblogaeth yn un hylifol iawn, gyda phobl yn dod am rai blynyddoedd o hyfforddiant cyn symud ymlaen.

Fodd bynnag, mae hefyd poblogaeth fwy sefydlog, ac mae adeilad yr eglwys gyferbyn ag Ysgol y Faenol, un o ddwy ysgol eglwysig, sydd wedi'i hadnewyddu'n ddiweddar ac sydd bellach â neuadd gymunedol newydd ar y safle.

## Eglwys y Groes, Maesgeirchen

Mae Eglwys y Groes yn eglwys o'r 1950au a adeiladwyd mewn safle amlwg yng nghanol un o'r ystadau cyngor mwyaf yng Nghymru, Maesgeirchen.

Mae gan yr eglwys neuadd integredig, cegin newydd, ystafelloedd cyfarfod, storfa a thoiledau. Mae'n chwarae rhan hanfodol yn y gymuned agos hon, gan gynnig lle i addoli, cynhaliaeth, ac yn estyn allan at drigolion lleol. Defnyddir y neuadd yn helaeth gan grwpiau lleol ar gyfer dosbarthiadau, clybiau a phartïon.

Mae'r gynulleidfa fach ond ffyddlon yn ymroddedig iawn i'w ffydd ac i wasanaethu eu cymdogaeth, ac edrychant ymlaen at gryfhau'r cysylltiadau gyda thrigolion lleol ymhellach.





## Y Ddinas

**Saif dinas Bangor ar arfordir gogledd Cymru—lleoliad sy'n llawn hanes a diwylliant, ac wedi'i hamgylchynu gan harddwch naturiol syfrdanol**

Dinas dysg yw Bangor. Gyda Phrif Adeilad y Celfyddydau yn edrych dros y ddinas a'r Gadeirlan, mae Prifysgol Bangor yn rhan annatod o fywyd y ddinas ac yn cyfrannu at ei natur amlddiwylliannol a chynhwysol. Gyda dros 11,000 o fyfyrwyr yn setlo yma, o leiaf dros dro, y mae cyfle i gydweithio gyda Chaplan y Brifysgol, y Parchedig Neville Naidoo, i sicrhau bod y Gadeirlan nid yn unig yn gartref iddynt ond yn fan cysur a noddfa i'r rhai sydd ei angen.

Dinas Gymraeg yw Bangor. Mae Eglwys Gadeiriol Bangor yng nghanol yr ardal a'r esgobaeth lle mae'r Gymraeg gryfaf ac yn fwyaf byw; mae 66.4% o drigolion Gwynedd yn siarad Cymraeg, gyda bron i hanner poblogaeth Bangor yn siaradwyr Cymraeg. Iaith fyw yw hi, iaith gyntaf, iaith bob dydd i gymaint o bobl – ac mae cyfle gwirioneddol i ymgolli yn y diwylliant Cymraeg, gyda chyngherddau, gigs a nosweithiau cymdeithasol o bob math yn cael eu cynnal yn yr ardal. Mae'r gwasanaethau a'r gymuned yng Nghadeirlan Bangor ac ar draws Bro Deiniol yn adlewyrchu pwysigrwydd yr iaith Gymraeg i'n plwyfolion ac i'r gymuned ehangach.

Mae Bangor yn fro rhwng y môr a'r mynydd. Gyda'r afon Menai i'r gogledd a mynyddoedd Eryri i'r de, mae gan y ddinas olygfeydd godidog sy'n ein hatgoffa'n ddyddiol o wyrth y greadigaeth.

Bangor sydd â'r Stryd Fawr hiraf yng Nghymru. Er bod Stryd Fawr Bangor, fel llawer o rai eraill, yn wynebu heriau difrifol, ceir balchder a dygnwch yma. Mae caffis a bwytai yn cynnig bwyd blasus ac amrywiol; mae Storiel yn amgueddfa ac oriel leol sy'n cynnal sgyrsiau a darlithoedd difyr. Mae cadwyni adnabyddus fel Marks & Spencer a Boots yn parhau i fod yn bresennol, ac mae marchnad stryd wythnosol ar dydd Gwener yn ffynnu. Uwchben y stryd fawr ceir tafarndai a bywyd cymdeithasol bywiog Bangor Uchaf, canolbwynt bywyd myfyrwyr, lle ceir y dafarn chwedlonol y Glôb gyda'i chymuned Gymraeg unigryw sy'n cynnwys nosweithiau gwerin a nosweithiau meic agored.

Mae Bangor yn ddinas sydd wedi cael ei chysylltu'n dda. Mae ganddi orsaf reilffordd a rhwydwaith o wasanaethau bws sy'n darparu cysylltiadau da â threfi a dinasoedd pellach. Nid yw ond hanner awr i ffwrdd o Borthladd Caergybi lle mae cychod fferi rheolaidd i Ddulyn.





## Y Tîm

Yn greiddiol i Fro Deiniol mae tîm ymroddedig, amryddawn sy'n ymrwymedig i weddi, gofal bugeiliol, creadigrwydd a chydweithredu. Bydd y Deon newydd yn ymuno â grŵp o gydweithwyr sydd yn angerddol dros y lle hwn a'i bobl, ac sy'n dod â doniau ac arbenigedd amrywiol i'r weinidogaeth. Mae'r tîm yn cynnwys:

- Y Canon Preswyl (Canon dros Fywyd Cynulleidfaol) – Y Parchg Canon Tracy Jones sy'n gyfrifol yn bennaf am les bugeiliol ac ysbrydol y cynulleidfaoedd a wasanaethwn.



- Cyfarwyddwr Cerddoriaeth (Llawn Amser) – Joe Cooper sy'n gyfrifol am reoli'r adran gerddoriaeth. Ef yw Cyfarwyddwr Cerddoriaeth y Brifysgol hefyd ym Mhrifysgol Bangor.



**Mae'r tîm cerddoriaeth yn cynnwys:**

Y Trefnydd Cerddorion (Rhan-amser)

Olynydd (Rhan-amser)

Clerig Llêg a Chymrodyr Corawl (Rhan-amser)

Cymrawd Organyddiaeth

**Mae tîm y Gadeirlan hefyd yn cynnwys:**

Cynorthwyydd Gweithrediadau (Llawn Amser)

Sacristan (Rhan-amser)

Gweithiwr Plant a Theuluoedd (Rhan-amser)

Caplan y Brifysgol (Llawn Amser)

4 Offeiriad wedi ymddeol

Darllenydd Lleyg Trwyddedig

3 Caplan Anna





## Llywodraethu a Strategaeth

Caiff y Gadeirlan a'r eglwysi ym Mro Deiniol eu llywodraethu gan Cabidwl (Chapter), sef y corff ymddiriedolwyr. Mae'n cynnwys 17 aelod (gan gynnwys y Deon): 13 canon clerigol a 4 canon lleyg. Bydd y Deon newydd yn gyfrifol am adolygu trefniadau a strwythur llywodraethu presennol er mwyn dod o hyd i fodel effeithiol ar gyfer y Gadeirlan a'r Ardal Weinidogaeth ehangach wrth gyflawni'r weledigaeth strategol.

## Ysgolion yn yr Ardal Weinidogaeth

O fewn yr Ardal Weinidogaeth mae chwech o ysgolion cynradd, dwy ohonynt yn ysgolion eglwysig. Mae hefyd dwy ysgol uwchradd, un ysgol annibynnol ac un coleg addysg bellach.







## Addoliad a Cherddoriaeth

Y Gadeirlan yw prif dŷ gweddi gyda darpariaeth ddyddiol o wasanaethau. Ein nod yw cynnal safon uchel mewn addoliad, gyda cherddoriaeth yn elfen ganolog.

Dan arweiniad y Cyfarwyddwr Cerddoriaeth, gyda chymorth yr Organydd, mae'r côr sy'n cynnwys cymrodyr corawl, clerion llêg ac aelodau gwirfoddol; yn canu mewn dau prif wasanaeth Cymun boreol ar ddydd Sul, ac ar gyfer gwasanaeth Gosber hwyrol ar ddydd Sul a rhwng dydd Llun a dydd Iau. Mae'r côr hefyd yn canu mewn gwasanaethau arbennig a digwyddiadau fel bo'r galw. Ar adegau arbennig, bydd cerddorion ychwanegol yn cael eu gwahodd.

| Dydd | Gwasanaeth | Presenoldeb Cyfartalog |
|---|---|---|
| **Sul** | 8.15 Cymun Wedi'i Ddweud (BCP 1984)<br>9.15 Cymun ar gân (Cymraeg)<br>11.00 Cymun ar gân (Saesneg)<br>11.00 Cymun yn Eglwys y Groes<br>15.30 Gosber ar gân | 6-10<br>10-20<br>60-100<br>8-15<br>3-15 |
| **Llun** | 12.30 Cymun<br>17.30 Gosber ar gân | 2-15<br>1-10 |
| **Mawrth** | 12.30 Cymun<br>17.30 Gosber ar gân | 2-15<br>1-10 |
| **Mercher** | 9.00 Boreol Weddi<br>12.30 Cymun<br>17.30 Gosber ar gân | 2-4<br>2-15<br>1-10 |
| **Iau** | 12.30 Cymun<br>14.00 Paned a Gweddi yn Eglwys y Groes<br>17.30 Gosber ar gân | 2-15<br><br>1-10 |
| **Gwener** | Amser agor y Gadeirlan 10.00-15.00 | |
| **Sadwrn** | Amser agor y Gadeirlan 10.00-15.00 | |

## The Deanery

Wedi'i lleoli'n berffaith ar ben ochr oogleddol y Gadeirlan, mae'r Deondy yn cynnig preifatrwydd a chyswllt agos, gan ei wneud yn sylfaen weinidogaethol ymarferol a bugeiliol.

Mae'r tŷ wedi'i adnewyddu'n ddiweddar gyda lloriau newydd, ffenestri, ac wedi ei ailaddurno drwyddi draw. Mae'n dŷ pâr gyda gardd flaen fawr, dreif, ac ardal batio breifat. Ar y llawr gwaelod ceir ystafell eistedd fawr, astudfa, ystafell fwyta a chegin. Ar y llawr cyntaf mae pedair ystafell wely fawr, un ystafell lai, dwy ystafell ymolchi ac un ystafell folchi ensuite.

## Grwpiau a Sefydliadau Eraill yn yr Ardal Weinidogaeth

**Banc Bwyd** – Mae'r banc bwyd yn gweithredu o Tŷ Deiniol (Swyddfa Esgobaethol), wedi ei lleoli ar ben dwyreiniol y Gadeirlan, ar ddydd Llun, dydd Mercher a dydd Gwener.

**Undeb y Mamau** – Mae cangen Bro Deiniol o Undeb y Mamau yn cyfarfod yn fisol yn Eglwys y Groes.

**Tîm Stiwardio'r Gadeirlan** – Gwirfoddolwyr sy'n sicrhau croeso cynnes i ymwelwyr yn ystod yr wythnos.

**Tîm Blodau'r Gadeirlan** – Tîm dawnus ac ymroddedig o drefnwyr blodau.

# Deon y Gadeirlan ac Arweinydd Ardal Weinidogaeth Bro Deiniol

Cadeirlan Deiniol Sant ym Mangor
Saint Deiniol's Cathedral in Bangor

Esgobaeth Bangor
The Diocese of Bangor

## Swydd Ddisgrifiad

**Perthnasau Gwaith Allweddol:**

- Esgob Bangor ac Esgob Enlli
- Y Canonau Preswyl
- Clerc y Cabidwl
- Cabidwl y Gadeirlan (Ymddiriedolwyr)
- Staff Clerigol a Lleyg y Gadeirlan
- Tîm Gweinidogaeth a'r Arweinyddiaeth Lleyg
- Gwirfoddolwyr y Gadeirlan
- Cyngor yr Esgobion
- Staff yr Esgobaeth
- Deoniaid y Taleithiau
- Staff y Taleithiau
- Urddasogion Dinesig
- Awdurdod y Brifysgol

## Dyletswyddau a Chyfrifoldebau

**Y Gadeirlan a'r Ardal Weinidogaeth:**

- Mae'r Deon yn arwain ei haddoliad, tystiolaeth, cenhadaeth, bywyd a gweinidogaeth ac mae'n gyfrifol gyda'r Cabidwl (Ymddiriedolwyr) am lywodraethu a chynnal y Gadeirlan a'r Ardal Weinidogaeth.
- Mae'r Deon yn goruchwylio, gyda'i gydweithwyr, fywyd bugeiliol yr Ardal Weinidogaeth.
- Gyda'r Cabidwl, mae'r Deon yn gyfrifol am drefnu a chynnal yr adeiladau, ac ariannau'r Gadeirlan a'r Ardal Weinidogaeth.
- Maent yn arwain datblygiad y safle hanesyddol hwn ym Mangor o ran ysbrydolrwydd, addysg, diwylliant a phererindod.

**Yr Archddiaconiaeth / Synod:**

- Mae'r Archddiaconiaeth a'r Synod yn cynnwys 9 Ardal Weinidogaeth y mae Bro Deiniol yn un ohonynt. Fel Arweinydd Ardal Weinidogaeth Bro Deiniol, mae gan y Deon gyfrifoldeb i gynrychioli Bro Deiniol ar lefel y Synod.

**Yr Esgobaeth:**

- Fel offeiriad uwch yn yr Esgobaeth, mae'r Deon yn rhannu goruchwyliaeth yr Esgobion dros genhadaeth yr eglwys gyda'i gydweithwyr uwch, ac yn aelod o Gyngor yr Esgobion, Cyngor yr Esgobaeth, a Chynhadledd yr Esgobaeth.
- Maent yn cydweithio'n agos â Chyngor yr Esgobion i gefnogi'r Esgobion ym mhob agwedd ar eu gweinidogaeth, gan rannu a datblygu gweledigaeth gyffredin ar gyfer yr Esgobaeth, ac yn ategu eu doniau o ran materion bugeiliol a gweinidogaethol.
- Mae'r Deon yn annog Ardaloedd Gweinidogaeth ledled yr Esgobaeth i fod yn groesawgar ac yn rhan o fywyd y Gadeirlan.

**Y Dalaith:**

- Mae'r Deon yn chwarae rhan ym mywyd taleithiol yr Eglwys yng Nghymru. Byddant yn mynychu cyfarfodydd Deoniaid y Dalaith.
- Mae tri o Ddeoniaid Cymru yn aelodau o Gorff Llywodraethol yr Eglwys yng Nghymru.

## Sgiliau, Doniau a Phrofiad

**Cymeriad:**

- Person gweddïgar,sy'n meddu ar ostyngeiddrwydd, uniondeb, gyda sgiliau bugeiliol a rhyngbersonol cryf.
- Agwedd dosturiol, gydymdeimladol a chynhwysol tuag at eraill.

**Sgiliau a Phrofiad:**

- Pregethwr, athro a chyfathrebwr dawnus.
- Arweinydd a rheolwr -sy'n deall bod gwahaniaeth rhyngddynt.
- Ymrwymiad amlwg i ragoriaeth yn y gweithle.
- Gweithiwr tîm greddfol a chydweithredol.
- Profiad priodol o blwyf mawr, eglwys, cadeirlan, neu rôl eglwysig sylweddol.

**Cymwysterau:**

- Cyfathrebwr rhugl yn Gymraeg ac yn Saesneg, gyda chefndir cryf ym maes Iaith, Diwylliant a Hanes Cymru.
- Graddedig.
- Wedi derbyn urddau offeiriadol ers o leiaf chwe blynedd.

## Blaenoriaethau Bro Deiniol ar gyfer y 5–7 Mlynedd Nesaf

- Ymateb i adroddiadau'r Ymweliad Esgobaethol diwethaf, gan gydweithio gyda'r Cabidwl a'r Dalaith i sicrhau cyflawniad llawn argymhellion yr Adroddiadau.
- Datblygu bywyd Bro Deiniol a gwneud y mwyaf o'i botensial o ran allgymorth ac yn efengylaidd.
- Formiwleiddio a chyflawni prosiect cyfalaf sylweddol i adnewyddu ac adfywio'r seilwaith ac ymateb i'r systemau gwresogi a goleuo.
- Datblygu'r addoliad corawl a dwyieithog yn y Gadeirlan.
- Datblygu potensial pererindod Cadeirlan Bangor.
- Cyflwyno gyda'r Cabidwl drefniadau llywodraethu priodol ar gyfer y Gadeirlan ac eglwysi'r Ardal Weinidogaeth.
- Datblygu cysylltiadau a phartneriaethau cryf gyda'r Brifysgol, Dinas Bangor, ac awdurdodau dinesig eraill.

## Proses Ymgeisio

Anfonwch eich CV ynghyd â llythyr cais at Esgob Bangor ac Archesgob Cymru Andrew John **archbishop@churchinwales.org.uk** a Verity Sterling, CG, **veritysterling@churchinwales.org.uk**

Dylai eich CV amlinellu eich cymwysterau addysgol a hyfforddiant, a'ch hanes cyflogaeth.

Yn eich llythyr cais dylech, mewn dim mwy na dwy ochr A4, ddisgrifio yr hyn yr sy'n eich denu at y swydd, a pherthnasu eich sgiliau a phrofiad i fanyleb y person.

**Dyddiadau Cau: Dydd Gwener 6 Mehefin.**
Bydd ymgeiswyr ar y rhestr fer yn cael eu gwahodd am gyfweliad.

Am sgwrs anffurfiol am yr apwyntiad:

**Archesgob Andrew John**
**archbishop@churchinwales.org.uk**

**Verity Sterling**
**veritysterling@churchinwales.org.uk**

Esgobaeth Bangor
The Diocese of Bangor

Cadeirlan Deiniol Sant ym Mangor
Saint Deiniol's Cathedral in Bangor